OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1247 (Cy. 319)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU
# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Tachwedd 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 4(2)(c) a 6(7) ac (8) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**3**), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Tachwedd 2021.

**Diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001**

**2.** Yn rheoliad 56(3C) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**4**), yn lle "4 November 2021" rhodder "28 March 2022".

(**1**) 2000 p. 2; gwnaed diwygiadau perthnasol i Atodlen 4 gan adran 14(2)(a) ac (8) o Ddeddf Gweinydd u Etholiadol 2006 (p. 22). Am y diffiniad o "prescribed", gweler adran 202(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2) i'w darllen ynghyd â pharagraff 1(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau 'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) 1983 p. 2; mae paragraff 1(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn darparu y bydd Atodlen 4 yn cael effaith fel pe bai wedi ei chynnwys yn Rhan 1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

(**4**) O.S. 2001/341. Gwnaed diwygiadau perthnasol i reoliad 56 gan O.S. 2006/752, O.S. 2006/2910, O.S. 2013/3198, O.S. 2020/1399 (Cy. 310) ac O.S. 2021/193 (Cy. 44).

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

9 Tachwedd 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn is-etholiadau llywodraeth leol penodol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn estyn y sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys, neu newid eu dirprwy enwebedig, a weithredir gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau perthnasol neu gyngor meddygol perthnasol mewn perthynas â'r pandemig COVID-19.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.